Cylchlythyr

Yr Hydref 2019

Annwyl Aelod Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd...

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys sylwadau ar rai o'r pynciau yr ymgynghorwyd arnyn nhw yn ystod Arolygu Paneli **Haf** a **Hydref** 2018, yn crynhoi 'beth ddywedoch chi wrthon ni' a 'beth wnaethon ni'. Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth!

Beth ddywedoch chi wrthon ni… ...GTADC – Dweud eich Dweud

Mae'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) adolygu Cynllun Gwella'r flwyddyn flaenorol cyn ymgysylltu â'r gymuned dros gyfnod o dri mis i gefnogi cynllun y flwyddyn ddilynol.

Byrdwn ein gwaith yn hyn o beth rhwng Medi a Rhagfyr oedd ymgysylltu gyda chynifer â phosibl o aelodau'r cyhoedd/cymuned yn ardal de Cymru a gofyn iddyn nhw gwblhau arolwg ar sail saith prif amcan GTADC. Cafodd yr arolwg ei greu'n ddwyieithog a'i anfon at bob Gwasanaeth Brys, grŵp BGC, busnes a Phanel Dinasyddion megis Panel Dinasyddion Cynnwys Casnewydd, er mwyn iddyn nhw yn eu tro ei anfon at eu cysylltiadau.

Roedd yr ymgynghoriad yn llwyddiannus iawn. Daeth 150 o ymatebion i law y flwyddyn cynt. Neidiodd hyn i 1,372 o ymatebion i ymgynghoriad 2018. Talodd y syniad o anfon yr arolwg atoch chi ar ei ganfed, gan eu bod wedi cyfrannu 238 o'r 1,372 ymateb a gafwyd.

Beth wnaethom ni...

Ar ddiwedd pob ymgynghoriad, bydd GTADC yn dadansoddi'r canlyniadau ac yn creu adroddiad ar y prif faterion a gododd. Bydd GTADC wedyn yn cyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod Tân fydd yn gwerthuso'r canlyniadau wrth baratoi at y Cynllun Gwella a'i nodau strategol, Cynllun Gwella 2019 yn yr achos hwn.

Ailgylchu dros Gasnewydd – rhowch fi yn y bin ailgylchu wedi i chi fy narllen

Beth ddywedoch chi wrthon ni… ...Cynllun Blynyddol CICAB 19-20

Canfu'r arolwg ar Gynllun Blynyddol 2019-20 Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan (CICAB) fod nifer uchel o bobl yn cyrchu gwasanaethau gofal sylfaenol a bod niferoedd is o lawer yn cyrchu gwasanaethau gofal eilaidd.

Dywedodd llawer o ymatebwyr bod newidiadau sydd wedi effeithio ar hygyrchedd wedi eu cyflwyno i'w Meddygfeydd. Dywedodd pobl hefyd fod anawsterau cael mynediad at ddeintyddion. Soniodd llawer o bobl am amseroedd aros am apwyntiadau ysbyty. Roedd y cyfnod aros hir mewn Adrannau Brys a disgwyl ambiwlansys hefyd yn peri gofid.

Beth wnaethom ni...

Edrychodd CICAB ar yr holl adborth a roddwyd ac fe ymgorfforwyd pob maes oedd yn destun gofid i'r cynllun gweithredol ar gyfer 2019-20. Yn y gorffennol, rydym wedi canolbwyntio'n sylw ar ofal eilaidd a'r profiad o fod mewn ward ysbyty, rydym nawr wedi datblygu cynllun fydd yn ein galluogi i ystyried profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol hefyd eleni. Mae ein cynllun, felly, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) monitro a chraffu ar y canlynol:

- Mynediad at apwyntiadau Meddyg Teulu a sut mae newidiadau i'r system o fewn gofal sylfaenol yn effeithio ar gleifion
- Mynediad at wasanaethau deintyddol
- Amseroedd aros o fewn amrywiol feysydd y Bwrdd Iechyd
- Profiad cleifion mewn Adrannau Brys
- Profiad cleifion wrth ddefnyddio Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Beth ddywedoch chi wrthon ni / Beth wnaethom ni… …Ymfudo

Dywedodd ychydig dan 24% fod mewnfudo wedi cyfoethogi economi Casnewydd, gydag ychydig dan 39% yn anghytuno gyda'r datganiad hwnnw. O ran y datganiad bod mewnfudo wedi cyfoethogi cymunedau Casnewydd, roedd ychydig dros 30% yn cytuno ac ychydig dros 42% yn anghytuno.

Mewn ymateb i'r adborth a ddaeth i law, mae rhagor o wybodaeth yn dal i gael ei hychwanegu at Dudalen Ymfudo gwefan Cyngor Dinas Casnewydd. Bydd y ddalen hon yn cael ei hadolygu ymhellach yn sgil cynllun gweithredu Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru ac Y Gallu i Greu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys hanesion cadarnhaol mewnfudwyr ddoe a heddiw ar y wefan.

Beth ddywedoch chi wrthon ni… ...Diogelwch yng Nghasnewydd

Roedd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg diwethaf (Ionawr 2019) yn cytuno bod yr heddlu a'r cyngor yn delio'n llwyddiannus gyda throsedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal (36.4%) o'i gymharu â 36% yn anghytuno. Mae hyn yn welliant bychan ar Orffennaf 2018 (33.7% yn cytuno).

Roedd aelodau'r panel hefyd yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar bob adeg o'r dydd ond roedd y ganran yn is nag oedd yng Ngorffennaf 2018. Yng nghanol y ddinas, roedd mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd (65%) nag yn y nos (27%). O ran barn am yr heddlu yn eu hardaloedd lleol, roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda'r datganiadau, gan amrywio o 84% (trin gyda pharch) i dan 41% (delio gyda'r pethau oedd yn bwysig), gyda phob barn wedi gwella ers Gorffennaf 2018.

Beth wnaethom ni...

Bydd eich adborth yn parhau i gael ei ddefnyddio i gywain barn y cyhoedd ynghylch diogelwch yng Nghasnewydd yn gefn i Ymyriad Cymunedau Cryf a Gwydn a amlinellir yn Cynllun Llesiant Casnewydd 2018-23 a gwaith Casnewydd Ddiogelach. Bydd y canlyniadau hyn yn dal i ategu'r rhai a gesglir drwy Arolwg Eich Llais, sy'n cael ei gynnal gan Heddlu Gwent.

Beth ddywedoch chi wrthon ni… ...Canfyddiad Casnewydd

Mae eich adborth yn dangos bod canfyddiad y cyhoedd o Gasnewydd wedi dirywio yn Ionawr 2019, Gyda chanlyniadau'n amrywio o'u cymharu â rhai 5 mlynedd yn ôl (Ebrill 2014).

Gostyngodd y ganran o bobl a ddywedodd bod Casnewydd yn lle da i fyw ers 2018 (49% nawr, 53% yn 2018), ond cynyddodd ers 2014 (47%).

Gostyngodd y ganran o bobl a ddywedodd bod Casnewydd yn tyfu'n lle gwell i fyw ers 2018 (39% nawr, 59% yn 2018), ac mae'n is hefyd na 2014 (42%).

Gwelwyd gostyngiad bychan yn y nifer o bobl oedd yn dweud eu bod yn falch eu bod yn dod o Gasnewydd (36.4% nawr, 39% yn 2018), ac mae ychydig yn is nag yn 2014 (37%).

Beth wnaethom ni...

Cynnig Casnewydd yw un o'r ymyriadau a amlinellwyd yng Nghynllun Llesiant Casnewydd 2018-23 gyda'r nod o weithio tuag at wneud Casnewydd yn lle mae pobl yn dymuno byw, gweithio a buddsoddi ynddo, ac ymweld ag ef. Mae gwaith wedi parhau ar y camau gweithredu oedd yn rhan o'r cynllun. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gobeithio y bydd y rhan yn gwella canfyddiadau'r cyhoedd o'r ddinas a'i gwneud yn lle mwy apelgar i fusnesau ac ymwelwyr. Bydd y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2018-19 ar y Cynllun Llesiant. Bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.

Diolch!!!

Diolch o galon i bawb a gwblhaodd Arolygon yr Haf a'r Hydref. Rydym wir yn gwerthfawrogi'ch adborth. Dyma oedd y cyfraddau ymateb: Haf (38%, 271 ymateb); Hydref (33%, 238 ymateb).

Cysylltu â ni

E-bost: one.newport@newport.gov.uk neu Ffôn: (01633) 656 656
Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter @OneNewport.